Newyddion Mis Tachwedd 2011

Munud i Feddwl – 30 Tachwedd 2011

Gary Speed (1969-2011), yr economi, Ymchwiliad Leveson - "*Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng"* (o *Rhyfel* gan Hedd Wyn (187 - 1917)). Cyfnod tywyll ydyw! Bu'n dywyll, oer a glawog trwy'r dydd ddoe. Cyfnod tywyll o'r flwyddyn ydyw! Mae newyddion y dydd, bob dydd, yn dywyll! Onid ydym, fel Pobl Crist yn Bobl y Goleuni? Onid Goleuni'r Byd yw ein Harglwydd? Goleuni? Tywyllwch? Ymgodymu'n feddyliol a wna'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** wythnosol.

Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol: Y Gymdeithas - 29 Tachwedd 2011

Cartref Traddodiadol yn Lesotho"***Gefeillio Eglwysi: yr eglwys ar waith***" - dyna oedd thema ein cyfarfod heno; Gwenallt a Non Rees oedd ein siaradwyr gwadd. Hwy sydd wedi bod yn cydlynu'r gefeillio rhwng **Eglwys y Tabernacl, Caerdydd** ag Eglwys Sefika, Maseru, Lesotho. Yn ystod y sgwrs clywsom am sefydlu'r gefeillio nôl yn 2003 a sut aethpwyd ati i feithrin a datblygu'r berthynas. Soniwyd sut y bu'r gefeillio yn fodd i feithrin ymwybyddiaeth o anghenion dybryd pobl Lesotho ymysg Aelodau Eglwys y Tabernacl, ynghyd â sut enynnwyd parodrwydd i gydweithio ac i hybu dulliau amgen o genhadu. Fe'n trawyd mor debyg bu'n profiadau ninnau yn Eglwys Minny Street yn ystod y ddau ddegawd y buom yn gefeillio ag Eglwys y Tronovato Ymgynghoriad yn y Clinigym Madagascar - perthynas sydd, erbyn hyn, wedi datblygu i fod yn gonsyrn cyffredinol am Fadagascar trwy'r elusen *Money for Madgascar*. Cyflwynwyd nifer o ffeithiau brawychus: 31% o'r boblogaeth yn dioddef o Ddiffyg Imiwnedd Caffaeledig (*HIV/AIDS*); 20% o blant yn amddifad, 50% yn byw o dan linell dlodi'r Cenhedloedd Unedig; a disgwyliad bywyd ond yn 35 mlynedd. Nodwyd hefyd bod 98% o'r 2 miliwn sy'n byw yn Lesotho yn Gristnogion; cawsom ryfeddu wrth glywed am niferoedd yr oedfaon a faint sy'n addoli ar y Sul. Cynhyrfus iawn, hefyd, oedd clywed am Ganolfan Iechyd Caselin, ac yn arbennig y clinig mamolaeth a ariannwyd yn rhannol trwy ymdrechion Aelodau Eglwys y Tabernacl.

***PIMS*: Pwdin Siocled a Thân Gwyllt - 28 Tachwedd 2011**

16 o Bobl Ifanc yn Nhŷ'r Gweinidog! Dyna fu hanes ***PIMS*** heno wrth i'r 'gang' grynhoi ar gyfer ymarfer o Gyflwyniad Nadolig ***PIMS*** i Gynnulleidfa Eglwys Minny Street. Trwy eiriau'r sgript gofynnir aml gwestiwn heriol - Bore Sul cawn holi ein hunain am y 'bocsys' a'n blaenoriaethau. Ond 'roedd mwy na dim ond ymarfer! 'Roedd ein Gweinidog wedi bod wrthi yn y gegin yn paratoi gwledd o gŵn poeth, bara garlleg, wynwyn a sglodion, a phwdin siocled a saws cwstard siocled! Noson o hwyl yn diweddu gydag arddangosfa dân gwyllt - llongyfarchiadau i'r Gweinidog am lwyddo i gael o leiaf un o'r ddwy Droell Catrin i droi!!!!



Sul Cyntaf yn Adfent – 27 Tachwedd 2011

"*O Arglwydd Dduw hollalluog, y mae'n bryd i ni ddeffro o'n hir gwsg, oherwydd y nos a gerddodd ymhell a'r dydd a nesaodd. Cynorthwya ni i roi heibio weithredoedd y tywyllwch a'n harfogi ein hunain ag arfogaeth goleuni. Dyro i ni ein gwregysu ein hunain a rhoi olew yn ein lampau, gan ddisgwyl am ddyfodiad ein Harglwydd. Amen.*" (Gweddi Tymor yr Adfent o *Llyfr Gwasanaeth* (*tud.*: 63); cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Tŷ John Penri 1998)



Y Parchedig Hywel Wyn Richards, Gweinidog Eglwys y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr, oedd ein Pregethwr Gwadd yn ystod y dydd. Wyneb adnabyddus i Annibynwyr Cymru - mae'n Gyn-Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a bu'n Olygydd *Y Tyst* am nifer o flynyddoedd. "*Faint ohonoch sy'n medru agor pecyn losin?*" - dyna'i gwestiwn i'r Plant a'r Plantos yn y Sêt Fawr ar ôl iddynt ddweud eu hadnodau. Cododd coedwig o ddwylo! "*... ag un llaw?*", ychwanegodd, a chlywyd y siom yn diasbedain trwy'r gynulleidfa! Chwarae teg, bu rhai'n ddigon dewr i fentro ond ni fu llawer o lwyddiant hyd nes i'r Pregethwr Gwadd gynnig estyn cymorth ymarferol trwy ofyn i rywun arall ddod i helpu. Er bod y dasg yn dal yn anodd, llwyddwyd i agor y pecynnau! Estyn cymorth - bod yn barod i estyn help llaw - dyna oedd neges y Cennad. Neges amserol iawn i'r holl gynulleidfa ar drothwy'r Nadolig. Owain a Gruffydd oedd yn arwain ein defosiwn yn yr **Oedfa Foreol** a bu holl ddosbarthiadau'r **Ysgol Sul** wrthi yn ddyfal trwy weddill y bore yn paratoi ar gyfer Oedfaon Nadolig yr Eglwys - y Bobl Ifanc wythnos nesaf, yna'r Plant yr wythnos ddilynol ac yna'r Plantos.

Dwylo oedd thema myfyrdod yr **Oedfa Foreol**. Ar ôl darllen hanes *Glanhau'r Dyn Gwahanglwyfus* (Luc 5: 12-16) canolbwyntiodd ein Pregethwr Gwadd ar y cymal: *"Estynnodd Iesu ei law a chyffwrdd ag ef"* (Luc 15: 13a). Er na wyddom lawer am bryd a gwedd yr Arglwydd Iesu, gwyddom lawer am sut un ydoedd trwy gyfrwng ei ddwylo - dwylo a oedd yn estyn allan, yn cofleidio plant, yn golchi traed, yn cyfarch cyfeillion, yn iachau cleifion ac yn torri bara. 'Roedd gan Iesu ***Ddwylo Gweithiwr*** - dwylo cyhyrog, creithiog - dwylo saer. Rhoddai Iesu fri ar waith a llafur dynol; a ydym bellach wedi colli golwg ar waith fel galwedigaeth? A ydym, wrth feddwl am waith fel ffordd i ennill bywoliaeth yn unig wedi colli golwg ar y ffaith fod gwaith yn rhoi lle i bob un wneud eu rhan yn y gymdeithas:

"*Lord of all pots and pans and things, since I've no time to be a saint by doing lovely things ...*
Make me a saint by getting meals and washing up the plates.
... Accept this service that I do – I do unto Thee"

(gan Cecily Hallack (1898-1938) o *The Missionary Review of the World*, **v. LIII**, Missionary Review Pub. Co., 1930*)*

'Roedd gan Iesu hefyd ***Ddwylo Gwasanaethwr***. *C*alon neges yr Efengyl yw bod Iesu wedi dod nid i "*gael ei wasanaethu ond i wasanaethu*" (Marc 10:45):

"*Dysg ni, Arglwydd i'th wasanaethu fel yr haeddi; i roi heb gyfri'r gost;*
i frwydro heb ystyried y clwyfau; i weithio heb geisio gorffwys;
i lafurio heb ddisgwyl unrhyw wobr ond gwybod ein bod yn gwneud dy ewyllys di"

Ignatius o Loyola (1491-1556) (*Gweddïau Enwog*; Gol.: Cynthia Davies; Cyhoeddiadau'r Gair 1993)

Yn olaf, 'roedd ganddo ***Ddwylo Gwaredwr***. Wrth fod Iesu yn estyn ei ddwylo agored, gwelir y cyfan a wnaethpwyd ganddo er ein mwyn; gwelwn ar y dwylo ôl yr hoelion yn agor mewn cariad:

"*Fe roes ei ddwylo pur ar led*
fe wisgodd goron ddrain"

(William Williams 1717-91; *C.Ff.* 493)

Wrth gloi cawsom ein hatgoffa o gerdd Gwyn Erfyl, "*Cyffyrddiad y Meistr*" - cyfieithiad ac aralleiriad o gerdd a welodd yr awdur mewn mynachlog yn Iwerddon. Hen ffidil ar gael ei gwerthu am £3 ond pan gydir ynddi gan henwr ac wedi iddo yntau ei byseddu a chwarae alaw lesmeiriol arni, fe'i gwerthir am £3,000:



"Ac mae sawl un ohonom allan o diwn a chreithiau ein pechod yn drwm.
Fe awn yn rhad yn y ffeiriau gwag, a'r cynnig, fel yn rhawd y ffidil, yn llwm.
Fe awn unwaith, yna eilwaith, yn mynd – bron iawn â mynd –
ond mae'r Meistr yno, ac nid yw'r dyrfa byth, byth yn deall
beth yw gwerth un enaid, a'r newid a ddaw
dan gyffyrddiad y Meistr a'i ddwyfol law."

(*Cyffyrddiad y Meistr* gan Gwyn Erfyl (1924-2007); *Cerddi y Tad a'r Mab (-yng-nghyfraith)* Gwasg Carreg Gwalch, 2003)

Isaac oedd testun ein sylw yn yr **Oedfa Hwyrol**. Fe'n hatgoffwyd o hanes Isaac a'i lwyddiant yn Nyffryn Gerar. Hynny yn ennyn cenfigen y Brenin. Gorchmynnwyd Isaac gan Abimelech i adael : "*Dos oddi wrthym, oherwydd aethost yn gryfach o lawer na ni.*" (Genesis 26: 16). Ufuddhaodd Isaac , ymadawodd ac aeth ati i gloddio pydewau newydd, un o hanfodion bywyd yn y rhan honno o'r byd. Gwelodd Bugeiliaid Gerar yr hyn yr oedd Isaac a'i weision yn ei wneud a mynnu perchnogi'r ffynnon (Llun: *The Wells of Gerar* gan Christoph Weigel (1654-1725)). Galwodd Isaac y ffynnon yn *Esec* - lle'r gynnen. Aeth ati i gloddio pydew arall; digwyddodd yr un peth eto! Ymadawodd Isaac ei ffynnon am yr ail waith a'r tro hwn galwodd y lle yn *Sitna* - lle'r ymryson neu elyniaeth. Cloddiodd bydew arall, y tro hwn ni fi unrhyw ymrafael. Galwodd Isaac y ffynnon yn *Reheboth* - lle'r ehangder - "*Rhoes yr Arglwydd le helaeth i ni, a byddwn ffrwythlon yn y wlad*" (Genesis 26: 22b). Cynigiodd ein Pregethwr Gwadd y gwelir pont yn yr hanesyn hwn rhwng yr Hen Destament a'r Newydd - yn arbennig felly, geiriau Llythyr Paul at yr Eglwys yn Rhufain - "*Paid a goddef dy drechu gan ddrygioni. Trecha di ddrygioni a daioni*" (Rhufeiniaid 12: 21). Gallai Isaac yn hawdd fod wedi hawlio perchnogaeth o'r ffynnon gyntaf - ef a'i weision oedd wedi ei chloddio. Ond ni ddilynodd y trywydd hwnnw. Pam tybed? Dyna fyddai wedi bod yr ymateb naturiol? Beth fyddai'r canlyniad wedi bod pe byddai wedi dal ei dir? Byddai wedi ennill ffynnon efallai, ond byddai hefyd wedi colli ei ryddid; rhaid byddai iddo warchod y ffynnon rhag ymosodiadau gan Fugeiliaid Gerar. **Mentrodd** Isaac ar lwybr gwahanol a pheidio mynnu mai ei ffynnon ef oedd hon. Nid oedd yn barod i ymateb i ddrygioni ag ymddygiad tebyg: "*The old law of an eye for an eye leaves everyone blind. It is immoral because it seeks to humiliate the opponent rather than win his understanding* ..." (Martin Luther King, Jr.; 1929 - 1968). **Daliodd Isaac ati!** Ni fu iddo roi i fyny! Ar ol colli'r ffynnon aeth ymlaen i gloddio un arall. Ar ôl colli honno daliodd ati a chloddiodd y trydydd. Bwriad Isaac oedd sicrhau ffynnon o ddŵr rhedeg a fyddai at wasanaeth pawb; nid oedd yn fodlon i ddim ei rwystro rhag gwireddu'r bwriad daionus hwnnw. Erbyn diwedd yr hanes daw'r Brenin Abimelech at Isaac am yr eildro (*Isaac and Abimelech swear an oath of friendship to each other* gan Gerard Hoet (1648-1733) allan o Figure de la Bible; cyh. P de Hondt, Yr Hâg 1728). Y tro hwn, dywed: "*gwelsom yn*

eglur fod yr Arglwydd gyda thi; am hynny fe ddywedwn, "Bydded llw rhyngom. A gwnawn gyfamod a thi ..." (Genesis 26: 28). O drechu'r elyniaeth trwy beidio taro'n ol, **crëwyd brawdgarwch**. "*Onid dyna gnewyllyn ein Hefengyl?*", gofynnodd ein Cennad - agorwyd drws yn Nyffryn Gerar; trwy weithredu'n ddaionus mewn ymateb i weithred elyniaethus, crëwyd hinsawdd newydd. O gofio'r cyfan sydd yn digwydd yn ein cymdeithas, ein gwlad a'n byd, onid perthnasol y neges ar Drothwy Nadolig 2011?

Ymddangosodd adroddiad o **Oedfaon Sul y Cofio 2011** yn Eglwys Minny Street ym *Mhedair Tudalen Gydenwadol Y Tyst* yr wythnos hon. Gobeithiwn, fel eglwys, ein bod ninnau trwy lofnodi Llyfr Gwyn Caerfyrddin wedi cymryd cam bychan tuag at yr hinsawdd newydd hwnnw a dilyn galwad ein Harglwydd i "*ddal mewn heddwch â phawb*" (Rhufeiniaid 12: 18) wrth i ni weithio i ddod â phobl a chenhedloedd y byd at ei gilydd.

Munud i Feddwl – 23 Tachwedd 2011

Trothwy'r Adfent! Cyfnod a chyfle i feddwl am sut y sillafwn Air Duw. Ff-o-a-d-u-r? I-a-ch-â-d? A-d-f-e-r-i-a-d? I-m-m-a-n-i-w-e-l? Yn ei **Funud i Feddwl** wythnosol, cynnig y Gweinidog y tynnir yr holl 'sillafiadau' gwahanol, eu galar a'u llawenydd, eu dyhead a'u sylweddoliad, yn un sillafiad sydd yn cynnwys y cyfan oll: **I-E-S-U**.

Bethania – Fesul Cam trwy Efengyl Mathew – 22 Tachwedd 2011

Hanes y Gŵr Ifanc Cyfoethog (Mathew 19: 16-30; Llun - Christ and the Rich Youth gan Bartholomeus Breenberg (1598-1657)) fu'r testun trafodaeth ym ***Methania*** heno. Cwestiwn i Iesu gan ŵr ifanc sy'n cychwyn yr hanes: "*Athro, pa beth da a wnaf i gael bywyd tragwyddol?*" (Mathew 19: 16). Diddorol, ac arwyddocaol, nodi bod pobl ifanc y pryd hynny, fel heddiw, yn teimlo'r angen am rywbeth amgenach na rhoi ufudd-dod syml i gyfundrefn grefyddol y dydd. Adnabu Iesu gwir gyflwr calon y gŵr ifanc yn ei orchymyn iddo: "*Os mynni fod yn berffaith, dos, gwerth dy eiddo a dyro i'r tlodion, a chei drysor yn y nefoedd; a thyrd, canlyn fi.*" (Mathew 19: 20). Tybiodd y gŵr ifanc y medrai brynu pob daioni. Gwahodd Iesu ef i newid ei ffordd, a rhoddi ei arian i wasanaeth arall, a bod yn barod i wasanaethu ac nid i'w wasanaethu. Fe aeth neges Iesu i galon y gŵr ifanc, a chafodd ei ysgwyd ganddi. Aeth i ffwrdd yn drist iawn. Bu trafodaeth brwd a ddylid ystyried gorchymyn Iesu i'r gŵr ifanc am werthu'r hyn oll oedd ganddo fel egwyddor gyffredinol. A'i gorchymyn i bawb yw hwn, neu a gafodd y gŵr ifanc hwn y gorchymyn am mai ei gyfoeth a'i cadwai allan o'r Deyrnas? Dysg Iesu fod yn rhaid ymwrthod ag unrhyw beth sy'n cadw person allan o'r Deyrnas, boed gyfoeth, clod neu reswm ... boed beth bynnag!

Y Cylch Dinasyddiaeth: Diwrnod Coffi Masnach Deg – 21 Tachwedd 2011

Dydd Llun llwyd a diflas ym Mis Tachwedd? Pa ffordd well i godi calon na mynd am baned o goffi a chael cyfle i sgwrsio â ffrindiau, a phrynu'r anrheg arbennig honno, a chardiau Nadolig? Gwahoddwyd aelodau Eglwys Minny Street, a chyfeillion, i alw i mewn yng nghartref Dianne ac Andrew yn ystod y dydd - Bore Coffi estynedig! Daeth

nifer ynghyd i fwynhau sgwrs a chwrdd â hen ffrindiau gan ei wneud yn achlysur gwerth ei gynnal. Gan gychwyn yn foreol a gorffen yn hwyrol llwyddwyd i werthu gwerth sylweddol iawn o nwyddau.

Bandiau Rwber, Haearn a Bedydd – 20 Tachwedd 2011

"*O ble daeth y rhain?*" Dyna'r cwestiwn a glywyd wrth i gynulleidfa'r bore gyrraedd Capel Eglwys Minny Street fore heddiw. Cyfeirio oeddent at y potiau blodau a oedd wedi 'ymddangos' o amgylch drysau'r capel ac ar y ddwy ffenestr naill law i'r fynedfa. ***PIMS*** fu wrthi Nos Lun yn paratoi'r potiau; atgoffawyr nid yn unig o ysblander Cread Duw, ond hefyd o'n dyletswyddau fel stiwardiaid tuag at y byd o'n cwmpas.

"*Ymestyn dy gariad, Arglwydd, hyd y nefoedd a'th ffyddlondeb hyd y cymylau*" (Salm 36: 5) Hon oedd un o'r nifer o adnodau a gyflwynwyd gan y gynulleidfa ar ddechrau ein **Hoedfa Foreol**; bob mis bydd y gynulleidfa yn ymuno â'r Plant a'r Plantos yn y Sêt Fawr i 'ddweud adnodau'. ***Ffyddlondeb*** oedd thema'r mis hwn. Yn ystod yr Oedfa buom yn dystion i ddau fedydd: **Ianto Gruffudd Hughes**, mab Elen ac Owain a brawd Leisa, a **Cerys Haf Ffion Rowlands**, merch Bethan a Parri a chwaer Amy. Yn arweiniad i'r ddau fedydd bu'r Gweinidog yn egluro i'r Plant a'r Plantos (a'n hatgoffa ni fel cynulleidfa!) o arwyddocâd y digwyddiad arbennig hwn. Taflodd belen o fandiau rwber i'r awyr a chynnig bod y belen yn cynrychioli Eglwys Minny Street - bandiau o wahanol liw, lled a chryfder ... pob un yn unigryw. Onid dyna ddisgrifiad cywir a phriodol o aelodau eglwys? Pob aelod yn unigryw ond yn rhan o un belen deuluol. Gan ddefnyddio ei hyfforddiant cudd fel swynwr (neu mae gennym weinidog hynod o glyfar!) aeth y Gweinidog ati i sôn am ddau fand rwber arbennig - tynnodd dau fand glas o'r bel ac o flaen ein llygaid bu iddynt droi i fod â ffurf person! Tynnodd un coch - a drodd yn ffurf galon; un gwyrdd - a drodd yn ffurf coeden; ac un brown a drodd i fod ar ffurf croes! "*Dyna,*" meddai, "*yw bedydd!*" Heddiw, wrth dystio i fedydd dau blentyn - Ianto a Cerys - cawsom, fel cynulleidfa Eglwys Crist, gyfle i estyn ein cariad a'n gofal am y ddau wrth iddynt dyfu, fel coeden, yn y Ffydd Gristnogol. Gwnawn hyn, yn y gobaith, y byddant hwythau, mewn blynyddoedd i ddod, yn teimlo'r awydd i ddatgan ei ffydd bersonol ei hunain a dilyn, o'u gwirfodd, mewn ffyddlondeb a theyrngarwch, Gŵr y Groes. Heledd a Tomos Wilshaw fu'n ein harwain mewn defosiwn; Heledd yn adrodd hanes Ruth a Tomos, gan gofio bod dau fedydd yn rhan anhepgor pwysig o'n haddoliad boreol, yn son am gariad a gofal Duw dros blant yr Ysgol Sul, ***PIMS*** a ledled byd. Mae dosbarthiadau'r Ysgol Sul bellach yng nghanol prysurdeb mawr wrth baratoi ar gyfer Oedfaon y Nadolig - y Bobl Ifanc ar Sul Cyntaf Rhagfyr, ac yna'r Plant a'r Plantos ar yr Ail a'r Trydydd. Bu'r Plantos yn gwrando ar Stori'r Geni heddiw cyn mynd i weithio yn y Cornel Crefftau a chreu wyn bach!



Ail-gydio yn ein taith drwy'r Tabl Cyfnodol a wnaethom yn Oedfaon y Dydd. Nol yn 1869, cyhoeddodd Dmitri Ivanovich Mendeleyev (1834-1907) y Tabl Cyfnodol. Mewn cyfres unigryw mae'r Gweinidog wrthi yn dangos i ni sut yr estyn y Tabl gyfle i ni weld a dysgu rhywbeth am ein crefydd a'n ffydd. **Haearn** oedd Elfen y Dydd! Ar ôl egluro mai o feteoritau y byddai'n cyndadau yn echdynnu haearn aeth y

Gweinidog ati i son sut y trowyd meteorit arallfydol, rhyfedd a rhyfeddol - ***Meteorit Willamette*** - yn rhywbeth rhyfedd o gyffredin trwy ei roi mewn oriel yn yr *American Museum of Natural History* yn Efrog Newydd. Dychmygwch, meddai'r Gweinidog, mai Duw yw'r haearn sy'n disgyn o'r gofod? Beth fedrwn ni ei wneud a'r haearn hwn? Meteorit WillametteGwyddom, meddai, am yr ysfa i roi Duw, fel y meteorit, o'r neilltu mewn amgueddfa! Fe'i diogelir fan honno, a sicrheir bod cyfle i bawb ei weld! Ond dyna i gyd! Oni fu i ni droi ein crefydda yn amgueddfa; yno gorwedd haearn anhygoel Duw yn gwbl segur. Ar adegau byddwn yn cyffwrdd â haearn y meteorit, heb wir ystyried anferthedd y cyffwrdd hwnnw; mae'r haearn arallfydol hwn ar gadw gennym yn ddiogel … Duw yn agos … ac eto mor bell. Heb ryfeddod yr olew, llonydd a tawel yw peiriant ein crefydda! Beth felly yw'r neges i ni yn Eglwys Minny Street? Gwers hanesyddol oedd ar ein cyfer fore heddiw! Cyn datblygu mwyngloddio haearn, byddai'n cyndeidiau yn echdynnu'r metal o'r meteoritau trwy ymdrech, chwys, dyfeisgarwch a dychymyg. Bwriwyd yr haearn arallfydol hwn i'r pair, a ffurfiwyd ohono pob math o offer. Onid dyna ein gwaith a'n cenhadaeth ninnau? Defnyddio haearn rhyfedd a rhyfeddol Duw; gosod yr haearn hwn ym mhair ein profiad unigol, cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a gwleidyddol er mwyn gwella'n byw a gwella'n byd. Neges bellgyrhaeddol i ni Gristnogion ar Sul cyn yr Adfent 2011; neges yn llawn her!



Aeth y Gweinidog a ni i Diroedd yr Arctig ym myfyrdod cyntaf yr Oedfa Hwyrol. Clywsom am hanes yr anturiaethwr Robert Edwin Peary (1856-1920; llun) yn trosglwyddo meteoritau i'r UDA. I'w trosglwyddo o'r Arctig bu'n rhaid adeiladu rheilffordd a mewnforiwyd mwy o haearn nag oedd yn y meini awyr eu hunain! Ond 'roedd Peary am eu cael! Gwelai rhywbeth rhyfedd a rhyfeddol ynddynt! I'r gymdeithas o'n hamgylch onid yw'n hymdrechion ninnau i gael gafael ar haearn Duw yn gwbl afresymol?, gofynnodd y Gweinidog. Mae rhai o'r pethau a wnawn gyda'n gilydd yn enw Duw a'n Harglwydd Iesu Grist, yn Eglwys Minny Street, mewn ymdrech i ddarganfod a gweithio haearn Duw yn gwbl afresymol! Ymrown i'r gwaith o symud haearn Duw i ganol ein bywyd, gwariwn y cyfan bron o'n hegni ysbrydol yn chwilio am egni ysbrydol. Afresymol? Ydyw! Ond cofiwn na lwyddodd yr Eglwys ddoe, ac ni lwydda heddiw yn ei chenhadaeth wrth esgus bod yn gall, rhybuddiodd y Gweinidog. Ffolineb yr eglwys yw ei hathrylith! Yn yr ail fyfyrdod, aethom ar daith i Ogledd Lloegr i dreulio orig yng nghwmni *Angel of the North*: angel haearn (sydd erbyn hyn hefyd yn rhydu) yn casglu'r bobl gyda'i adenydd eang (Llun: *Angel of the North* gan Antony Gormley (*gan*. 1950)). Haearn a rhwd, gyda'i gilydd: haearn yn ein hatgoffa o ddyddiau mawr Tyneside; rhwd i'n hatgoffa o ddirywiad y diwydiant. Dychmygwch wybod y cyfan!, gorchmynnodd y Gweinidog! Dychmygwch hollwybod-olrwydd Duw! O'r dechrau, bu pobl yn deisyf arno i **anghofio** pechodau. Oni pharhawn i wneud hynny heddiw? Bu pobl Dduw hefyd wrthi yn erfyn ar i Dduw eu **cofio**. Os mai Duw hollwybodol yw, ni all anghofio; ac o'r herwydd nid oes angen ei atgoffa o unrhyw beth! Duw cariad … sut gwyddom hynny? Oherwydd bod y storiâu ein perthynas ag Ef yn brawf mai cariad yw Duw. Gwyddom ei fod yn cofio. Gwyddom hefyd fod Duw yn anghofio, oherwydd clywsom

hanesion amdano yn gosod pechodau pobl o'r neilltu. Mae Duw yn hollwybodol, hollalluog a holldrugarog! ***Natur Hollwybodol Duw - yr haearn; Natur Hollalluog Duw - y rhwd.*** Lle gwelir un, fe welir y llall, ni ellir gwahaniaethu'r ddau. Duw hollwybodol yw, ond hollalluog hefyd. Oherwydd hynny mae'n alluog i greu rhwd; creodd iddo'i hun y gallu i anghofio, ac wedi anghofio, i faddau. Pan weddïwn am faddeuant - oni chawn faddeuant llwyr a llawn? Os gall Duw hollwybodol anghofio a maddau, onid oes gofyn naturiol arnom ninnau felly i anghofio, maddau ac i ganiatáu i rywbeth rydu ymaith o'n perthynas a'n gilydd. Dwy oedfa fendithiol, tri myfyrdod athrylgar yn cynnig tair neges heriol i ni yn Eglwys Minny Street: na foed i ni roi Duw mewn amgueddfa; bod yn afresymol dylai athrylith ein Ffydd i fod; ac wrth dyfu mewn Ffydd boed i'r rhwd a'r haearn sefyll law yn llaw.

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yn Festri Eglwys Salem fore ddoe er budd Cymorth Cristnogol; llwyddwyd i werthu'r rhan fwyaf o'r nwyddau ar stondin Cacennau Minny Street a chliriwyd y gweddill yn yr Oedfa Foreol! Margaret Evans ac Aerona Warrington fu'n gyfrifol am gydlynu'n gweithgarwch. Braf oedd gweld, yn ystod yr wythnos, bod hanes Oedfa Llyfr Gwyn Caerfyrddin wedi ymddangos ar wefan **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** a'r *Cymro*. Erys bendith Oedfaon Boreol Sul y Cofio o dan arweiniad Mererid Hopwood a'r Gweinidog yn hir yn y cof. Cafwyd hefyd ymateb cadarnhaol i erthygl bryfoclyd Y Gweinidog - o dan y pennawd '*Selling Out*' - yn *Y Tyst*; bwriad y Gweinidog, trwy'r erthyglau hyn, yw ennyn trafodaeth ar faterion yn ymwneud â'n Ffydd. Dosberthir rhifyn cyfredol ***Yr Aelod*** ymysg yr aelodau yn ystod yr wythnos nesaf; daw cyfle i lwytho rhai o'r erthyglau ar y wefan hon ddechrau Rhagfyr. Daeth addoliad y dydd i'w derfyn dros bryd o fwyd Eidalaidd yn ein ***Koinonia Hwyrol***. Eang oedd ystod pynciau'r sgwrsio dros y pasta - o fedydd i haearn a rhwd! O weithgarwch PIMS i gardiau Nadolig ein helusen! Diolch i Dduw am Sul arbennig arall yng nghwmni'n gilydd i'n paratoi ar gyfer wythnos newydd o waith.

Priodas– 19 Tachwedd 2011

Llongyfarchiadau i **Ruth (Gregory)** ac **Andrew Brown** ar eu priodas yng Nghapel Minny Street heddiw. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt.

Munud i Feddwl - 17 Tachwedd 2011

Pryd wnaethoch chi dderbyn 'cwtsh' ddiwethaf? Pryd fu i chi roi 'cwtsh' ddiwethaf? Mewn **Munud i Feddwl** ychwanegol mae neges y Gweinidog yn ddigon eglur: Cydiwch mewn rhywun! Rhowch 'gwtsh' i rywun er mwyn iddynt gael gwybod bod rhywun yn malio, bod rhywun yn gwerthfawrogi. Ewch amdani! Rhannwch y *darshan*!

Munud i Feddwl – 16 Tachwedd 2011

'Roedd yn gwerthu pethau, pob math o bethau … Dyddiau Da, Cydwybod Dawel, Perthynas Iach a hynny am Damaid o Amynedd, Pinsied o Synnwyr Cyffredin, Modfedd o Ofal, Darn o Haelioni a Mymryn o Ddiolch. Cyfaill oes am Ysgydwad Llaw? Dydd Da am dafell fach o Garedigrwydd! Beth brynwch chi? Ceir rhagor o fanylion gan y Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl**.

Genedigaeth – 16 Tachwedd 2011

Croeso cynnes i **Lewis David** a **Dylan Huw** a anwyd heddiw i Gareth a Hannah Murphy; wyrion i Rhiannon a Gerald Murphy. Dymuniadau da i'r teulu.

Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol: Y Gymdeithas - 15 Tachwedd 2011

"Heulwen ar hyd y glennydd - a haul hwyr
A'i liw ar y mynydd;
Felly Llŷn ar derfyn dydd,
***Lle i enaid gael llonydd**."*
(*Llŷn* gan J Glyn Davies (1870-1953))

'Roedd Festri Minny Street yn llawn heno i wrando ar y Gweinidog, Rhiannon Evans a Glyn Jones yn ein harwain i lefydd yr oedd eu heneidiau hwythau yn cael llonydd.

Fe'n harweiniwyd gan y Gweinidog trwy Dyddewi, heibio i Bont Menai, Rhydwilym , i bwll nofio (oer a phlygeiniol!) a Llundain, cyn cyrraedd tawelwch a llonyddwch ei stydi a enwir ganddo yn Ystafell Llundain (llun). Galwyd yr ystafell gynhyrchiol hon ar ôl ystafell Owain yng Ngholeg Bala Bangor a chawsom wybod am ei dirgelion a'i thrysorau.

Cawsom ein tywys gan Rhiannon Evans i ardal Llanrhystud ac yn benodol i bentref Llanddeiniol. Tynnodd lun o'r pentref a'r ardal mewn geiriau ac erbyn diwedd ei sgwrs, 'roeddem yn teimlo ein bod yno. Clywsom am farn sarhaus Brad y Llyfrau Gleision am blant ysgol y pentref a gwrthgyferbynnodd Rhiannon hynny â Chymraeg coeth, dilychwin a ddefnyddiwyd gan ei theulu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Clywsom am y siop, y capel, yr eglwys (llun), llyfr cofnod yr ysgol ac am artaith yr atafaelu eiddo trwy ocsiwn yng nghanol gerwinder gaeaf.

Cawsom ein tywys gan Glyn Jones i Loegr, i Swydd Henffordd i bentref Eglwys LlanrhyddalLlanrhyddal neu Llanrothal yn Saesneg. (Mae pentref Llanrhyddal oddi ar yr A466, yn agos i Drefynwy.) Cyfeiriodd Glyn at hanes y pentrefi ar y Gororau sy'n dwyn enwau hyfryd yn y Gymraeg. Mae pentref Llanrhyddal mewn cwm breuddwydiol a thangnefeddus. Nid oes modd cyrraedd Eglwys Ioan Fedyddiwr yn y pentref ond trwy droedio'r dalar, eglwys sydd yn cynnal un gwasanaeth y flwyddyn yn unig (24 Mehefin) ar ddiwrnod Ioan Fedyddiwr.

Mae'r eglwys erbyn hyn yng ngofal **Cymdeithas Cyfeillion Eglwysi Amddifad**. Darllenodd Aled Gwyn gerdd (*Cwm Celyn*) o eiddo un o'n cyn-aelodau annwyl, Glyn Jones (1905-1995): teimlai Glyn fod y gerdd hon yn cyfleu llonyddwch Llanrhyddal i'r dim.

Noson i'w thrysori a'i chofio, a noson pryd y cawsom gyfle i weld tapestri cyfoethog a luniwyd gan dri o'n haelodau.

PIMS: yn yr ardd! – 14 Tachwedd 2011

Yn nhrafodaethau ***PIMS*** daw dwy agwedd o'r Bywyd Cristnogol i'r wyneb yn weddol aml. Gofal am, a dyletswydd at gyd-ddyn yw'r cyntaf; stiwardiaeth o Greadigaeth Duw yw'r ail. Bu'r Noson Gawl a drefnodd ***PIMS*** ar Nos Galan Gaeaf yn fodd i gasglu nawdd at Elusen yr Eglwys eleni - Ambiwlans Awyr Cymru. Tro'r Cread oedd hi heno! Ers peth amser mae wedi bod yn fwriad gan ***PIMS*** o atgoffa cynulleidfa Eglwys Minny Street o'i dyletswydd, hyd yn oed yng nghanol ein prifddinas, i ofalu am odidowgrwydd y byd o'n cwmpas. Trwy gyd-weithio â Chylch Dinasyddiaeth Eglwys Minny Street aethant ati heno i geisio sicrhau bod peth o'r ysblander hwnnw i'w weld o amgylch ein capel. O dan arweiniad praff 'Alan Titchmarsh' Minny Street - y Gweinidog - aethpwyd ati i gynllunio a llenwi potiau blodau i'w rhoi ger prif fynedfa'r capel, ynghyd ag ar rai o'r ffenestri. Manon a Cai, cynrychiolwyr ***PIMS*** ar y Cylch Dinasyddiaeth, fu'n dosrannu'r blodau yr oedd Cai wedi trefnu i ddod gydag ef, a gydag ychydig o gyngor doeth bob yn awr ac yn y man llwyddwyd i gwblhau'r dasg yn weddol hawdd. Bydd ***PIMS*** yn gyfrifol am leoli'r blodau yn y lleoliadau priodol ar Fore Sul a'u cywain yn ôl i gefn y capel ar ddiwedd y dydd. Lleucu a Tomos oedd newyddiadurwyr y noson. Barn y ddau oedd bod "*'neud i blaen y capel edrych yn bert a phrydferth yn fab!*"; a thra bod Lleucu wedi mwynhau "*bod yn greadigol a 'neud rhywbeth yn wahanol i arfer*", gofid mawr i'w Gweinidog oedd hefyd deall ei bod wedi cael pleser digymysg yn "*gallu 'neud 'mess'*". Braf oedd cael cyfle i longyfarch rhai o'n hieuenctid ar eu llwyddiant yng Ngŵyl Gerdd Dant Cwm Gwendraeth 2011 dros y penwythnos aeth heibio; Daniel B oedd pencampwr y Cylch Pêl, gem a ddaeth a noson ryfedd o hwylus a gwahanol i'w therfyn.

Sul y Cofio: Llyfr Gwyn Caerfyrddin – 13 Tachwedd 2011

"*Pan deimlodd fyned ymaith Dduw*
Cyfododd gledd i ladd ei frawd;"
(o *Rhyfel* gan Hedd Wyn 1887-1917; *Cerddi'r Bugail* 1918)

Fel nifer o eglwysi Cristnogol ledled Cymru bu i Eglwys Minny Street, Caerdydd draddodiad o heddychiaeth radical; erys Efengyl Heddwch a Chymod yn sail a chanolbwynt gwaith yr eglwys hyd heddiw o dan weinidogaeth y Gweinidog presennol. Eleni, ar Sul y Cofio 2011, braint yr eglwys oedd croesawu *Llyfr Gwyn Caerfyrddin* i'n plith. Wrth deithio o amgylch Cymru gwahoddir trigolion ein gwlad i arwyddo tudalennau'r gyfrol hardd hon i nodi eu bod o blaid heddwch. Bydd *Llyfr Gwyn Caerfyrddin* yn datgan yn groyw i'r byd enwau pobl sy'n credu mewn heddwch. Mererid Hopwood, aelod o Gell Caerfyrddin o Cymdeithas y Cymod, a gludodd y Llyfr atom.

Cychwynnwyd ein **Hoedfa Foreol Gynnar** gyda geiriau Gweddi'r Plant. Dyma weddi arferol y Plant a'r Plantos eleni ond geiriau hynod o bwrpasol ar gyfer heddiw:

"Dy fendith, nefol Dad
Fo ar dy blant i gyd
A boed dy adain dros ein gwlad
A'th heddwch dros y byd."

Dwysbigwyd cynulleidfa'r Oedfa Foreol Gynnar gan fyfyrdod a arweiniwyd gan ein Gweinidog, gyda chyfeiliant drymiau ac offerynnau taro o dan ofal Shani, Connor a Bethan, i feddwl am erchylltra rhyfel. Bydd clywed tician cloc yn stopio wrth i Fom Hiroshima ffrwydro, a churiad calon baban - bywyd newydd - yng nghanol yr holl ladd a difrod yn aros yn Llyfr Gwyn Ysgol Sul Minny Streethir yn y cof. Fe'n cyffyrddwyd a diweddglo'r myfyrdod "*Pwy a ŵyr pe bawn yn dysgu cyfrinach tangnefedd a chariad Duw, pe bawn yn cerdded llwybrau lletchwith brawdgarwch a thosturi, pe bawn yn dysgu beth yw gwir gyfathrebu - gwrando ar bobl a byw gyda phobl -; efallai wedyn byddem yn clywed rhywbeth aruthrol pwysig. Yn dawel, dawel - sŵn curiad calon ein plant - sŵn curiad calon y plant sydd yn aros i gael ei geni, sydd yn aros i gael etifeddu'r ddaear - sŵn curiad calon ein plant a phlant ein plant."* Wrth ddiolch i Mererid Hopwood am ymuno â ni ar Fore Sul y Cofio cyflwynodd y Gweinidog a Jemeima Lyfr Gwyn Ysgol Sul Eglwys Minny Street iddi; bu'r Plant a'r Plantos wrthi dros yr wythnosau diwethaf yn arwyddo'r llyfr hwn ar gyfer bore heddiw. Dyma oedd arwydd addewid Plant a Phlantos Minny Street i fyw mewn heddwch.

"*Rhag rhyfel, rhag creu gelyn, yn annwyl*
daw'r enwau'n ddiderfyn,
yn ddi-oed fe ddaw wedyn
yfory gwell drwy'r Llyfr Gwyn"

Tudur Dylan Jones

Wrth wahodd y gynulleidfa i dorri ein henwau yn y *Llyfr Gwyn* yn yr **Oedfa Foreol** cyfeiriodd Mererid at y gwastraff o adnoddau, ond yn bwysicach o fywydau, a ddaw yn sgil rhyfela. Gan gyfeirio at ystadegau a gyflwynwyd yn Narlith Goffa Lewis Valentine Cymdeithas Heddwch Undeb Bedyddwyr Cymru, , *Cymru'r Dyfodol: 'Cylch yn Treiglo' neu 'Crud yn Siglo'*, llwyddodd ein siaradwraig wadd i'n syfrdanu trwy nodi y byddai traen o '*wariant milwrol byd-eang - tua 780 biliwn doler ... yn datrys holl broblemau sylfaenol y ddaear.*' Gofynnodd hefyd faint yw gwerth bywyd? Yn gynnil cysylltodd y cwestiwn hwn a cherdd Waldo, *Pa Beth yw Dyn?* Canolbwyntiodd ar dri chymal o'r gerdd: ***"****Beth yw byw? Cael neuadd fawr rhwng cyfyng furiau.*"; "*Beth yw maddau? Cael ffordd trwy'r drain at ochr hen elyn.*"; a "*Beth yw trefnu teyrnas? Crefft sydd eto'n cropian. A'i harfogi? Rhoi'r cyllyll yn llaw'r baban.*" Hanes Joseia oedd testun myfyrdod y Gweinidog. Aeth Joseia ati i "*atgyweirio Tŷ'r Arglwydd"* (2 Cronicl 34: 8). Ynghanol yr holl adeiladu, daeth un o'r offeiriaid, Hilceia, ar draws "*llyfr cyfraith yr Arglwydd, a roddwyd trwy Moses*" (2 Cronicl 34: 14). Canolbwyntiodd y Parchedig Owain Llyr ar dair agwedd o'r hanes: ***Wedi colli'r llyfr daeth argyfwng.*** Gwerth *Llyfr Gwyn Caerfyrddin* yw, nid ei geinder, ond mai datganiad o argyfwng

ydyw. ***Mae darganfod y llyfr yn creu edifeirwch.*** Onid colli ymwybod o fawredd Duw yw trasiedi ein cyfnod? Peidiodd ein Duw mawr a bod yn Dduw mawr; aeth ein crefydda o'r herwydd yn gasgliad o fanion. Nid esbonio, diffinio, mesur a chyfrif mawredd Duw a wnaeth Iesu ond ei gyfleu i bobl. ***Mae defnyddio'r llyfr yn newid byd.*** Ni all *Llyfr Gwyn Caerfyrddin* newid byd, ond gall y bobl sydd yn gosod eu henwau ynddo! Fe allwn ni gyda'n gilydd newid byd, a sicrhau nad canrif arall o ddur a phlwm, llaid a gwaed, lladd a difa yw. Uchafbwynt yr oedfa oedd, wrth gwrs, arwyddo'r Llyfr. Go brin bydd i neb oedd yn bresennol anghofio naws a difrifoldeb y myfyrdod tawel wrth i aelodau'r gynulleidfa ymlwybro yn eu tro i flaen y capel i dorri eu henwau ar femrwn y Llyfr. Cynorthwywyd ein myfyrdod gan ddewis ein horganyddes Helen Evans wrth iddi ganu'r organ: *Benedictus* o *The Armed Man: A Mass For Peace* gan Karl Jenkins (gan. 1944). Prin chwaith bydd i neb ohonom a oedd yn bresennol yn Eglwys Minny Street fore heddiw anghofio Sul y Cofio 2011. Ar ôl yr oedfaon bu'r capel ar agor i roi cyfle i gyfeillion Eglwysi Cymraeg eraill y ddinas i ymateb i'n gwahoddiad iddynt ymuno a ni a datgan, trwy arwyddo'r Llyfr, o'u dymuniad hwythau i weld a gweithio dros fyd o heddwch a chymod. Yn sicr, 'roedd torri'n henwau ar dudalennau *Llyfr Gwyn Caerfyrddin* yn un o'r pethau hawsaf ac anoddaf y bu gofyn i ni ei wneud erioed.

Cawsom gyfle i fyfyrio ar dri darn o Efengyl Mathew yn ein **Hoedfa Hwyrol**. **"*Talwch felly bethau Cesar i Gesar, a phethau Duw i Dduw*"** (Mathew 22: 21b) oedd y cyntaf. Gwrthododd Iesu gael ei ddal gan gynllwyn y Phariseaid *"... a yw'n gyfreithlon talu treth i Gesar, ai nad yw?"* (Mathew 22: 17) … dibynna hynny ar ateb i'r cwestiwn a ydych yn ei alw'n dduw? … os yw'r ymerawdwr yn eilun gennych?… os yw llun ac arysgrif Cesar ar eich calon? Os mai dim ond 'Cesar' yw Cesar - rhywun sydd yn digwydd bod heddiw mewn grym - yna mae talu treth yn gwbl gywir. Gan wneud cyswllt â Phroffwydoliaeth Jeremeia: "*Y mae'r dyddiau'n dod, medd yr Arglwydd, y gwnaf gyfamod newydd a Thŷ Israel ac a Thŷ Jwda … rhof fy nghyfraith o'u mewn, ysgrifennaf hi ar eu calon, a byddaf fi'n Dduw iddynt a hwythau'n bobl i mi.*" (Jeremia 31: 31-34) mynnodd y Gweinidog mai'r cyfamod a ysgrifennir ar y galon sy'n datgan a chadarnhau pwy ydym, ac eiddo pwy ydym. Calon crefydd yw crefydd y galon. Cyfarwydd iawn oedd yr ail hanesyn, ***Dameg y Deg Geneth*** (Mathew 25: 1-13; llun *The Wise and Foolish Virgins gan William Blake (1757-1827)*). Y morwynion call wedi dod a llusern a ffiol o olew gyda hwy … y morwynion ffôl ond wedi dod a llusern, dim olew ychwanegol. Pan mae'r olew yn y llusern yn diffodd, ofer y cyflenwad olew sydd adref! Yma, nawr, mae angen yr olew! Heb fod olew gennym - bob amser, ymhob amgylchiad - amhosibl i'r un ohonom fod yn oleuni i neb arall, beth bynnag a ddymunwn neu ddyheuwn. Rhaid deall beth sydd yn ein cynnal yn ysbrydol, ac yna gwneud yn siŵr fod gennym rywfaint o'r olew hwnnw gyda ni bob amser, oherwydd bydd ei angen arnom - bob dydd, ac o ddydd i ddydd. Aralleirio ***Dameg y Codau o Arian*** (Mathew 25: 14-30: llun - Dameg y Deng Cod Arian. Hawlfraint: jesusmafa.com) gwnaeth y Gweinidog yn ei drydedd homili. Dylem osgoi cael ein tynnu i feddwl am arian a pherchnogaeth, meddai. Beth



pe byddem yn derbyn nad rhywbeth i'w fuddsoddi, ac ennill ato, yw'r cod arian ond, yn hytrach, Efengyl - Newyddion Da Iesu Grist - i'w rannu a'i ledaenu? Beth pe bawn yn derbyn fod y dyn yn y ddameg yn ymddiried i bob un o'i weision bob cyfran o'r trysor mwyaf erioed: Ffydd, Gobaith a Chariad? Byddem yn darllen y ddameg yn wahanol wedyn!

Audrey a Marian Lake oedd yn gyfrifol am ddewis ein hemynau yn yr Oedfa Hwyrol. "*Llefara, Iôr, nes clywo pawb dy awdurdodol lais*" (R J Derfel 1824-1905; *C.Ff.* 234) oedd dewis cyntaf Audrey. Emyn sy'n erfyn ar Dduw i gael y byd i drefn. Emyn brawychus o berthnasol i gyflwr ein byd ac yn deisyf am decach byd oedd ei hail ddewis, "*Cofia'r newynog, nefol Dad, filiynau llesg a thrist eu stad …*" (Tudor Davies; *C.Ff.* 816). Hoff gan Marian Salmau Cân Edmwnd Prys a gan mai Salm 121, gyda'i delwedd o Dduw fel amddiffynfa yn gysur ac yn gynhaliaeth, yw ei hoff salm pa ryfedd mai'r cyntaf o'i dau ddewis oedd: "*Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw: ble daw im help 'wyllysgar?*" (Edmwnd Prys 1544-1623; *C.Ff.* 120). Geiriau mawr W Pari Huws (1853-1936) oedd yr ail ddewis, geiriau sy'n llifo'n naturiol o eiriau Tudor Davies. Dyma batrwm i waith yr eglwys: "*Arglwydd Iesu, llawn d'Eglwys a'th Lan Ysbryd di dy hun …*" (*C.Ff.* 839).

Fel ymateb i ddeiseb e-lein mae un o Is-bwyllgorau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu trafod y posibilrwydd o sefydlu ***Academi Heddwch yng Nghymru***. Fel rhan o'r Ymgynghoriad Agored gwahoddir unigolion, mudiadau a sefydliadau i ddanfon sylwadau i'r Cynulliad. Bydd ein Cylch Dinasyddiaeth yn ymateb a heddiw gwahoddwyd aelodau'r Eglwys i ddanfon unrhyw sylwadau i Gydlynydd y Cylch erbyn diwedd y mis. Cyhoeddwyd erthygl gan ein Gweinidog yn *Y Tyst* yr wythnos hon o dan y pennawd '*Cei dy farnu, cei dy ganmol ...*' aralleiriad o eiriau cyfarwydd cyfieithiad Ben Davies (1864-1937) o emyn enwog Norman MacLeod (1812-72). Efallai bod yna neges yn yr erthygl i ni fel cynulleidfaoedd: "*Mae gweinidog da yn cael ei greu gan gynulleidfa dda, a'r gynulleidfa dda yw'r gynulleidfa honno nad sydd yn gyson feirniadol, nac yn rhy ganmoladwy, ond sydd yn cynnig i'r gweinidog adborth sicr, a phwrpasol.*"

Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: `Stafell Fyw Caerdydd – 10 Tachwedd 2011

Wrth gyflwyno'r Siaradwr Gwadd, Wynford Ellis Owen, Cyfarwyddwr **Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill**, soniodd Cadeirydd y Cyngor, y Parchedig Menna Brown, am ei hymweliad â'r `Stafell Fyw ddechrau'r wythnos ac am ateb un o fynychwyr y ganolfan i'r cwestiwn "*Beth mae'r lle yma yn ei feddwl i chwi?*" - "*Cariad, cariad, cariad.*" Er mai ychydig wythnosau sydd ers agoriad swyddogol y Ganolfan mae eisoes yn chwarae rhan bwysig yn adferiad unigolion. Braint y gynulleidfa ddaeth ynghyd yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth heno oedd cael rhannu o brofiad a gweledigaeth un o weithwyr y ganolfan.
Gan ddyfynnu'n helaeth o'i brofiadau personol, yn gwbl onest ac agored, esboniodd y Siaradwr prif hanfodion gweledigaeth y Ganolfan. Cychwyn y cyfan trwy addysgu unigolion i garu eu hunain. Sail gweledigaeth **`Stafell Fyw Caerdydd** yw bod adfer yn ymwneud â phobl yn ailadeiladu eu bywydau ac yn gwireddu eu gobeithion. Deillia dibyniaeth (o ba fath bynnag) ar anallu pobl i garu ei hunain ac yn aml iawn yr anfodlonrwydd hwnnw i gydnabod y ffordd

maent yn wir deimlo ac yn meddwl; mae dibyniaeth yn ffordd "hawdd" o osgoi canlyniadau. Ymdebyga dibyniaeth i brofiad ysbrydol - mae'n ffordd gyflym i deimlo'n dda ... ond dros dro yn unig y peri'r ymdeimlad hwnnw. Rhaid i'r person unigol sylweddoli ei hunan fod angen cynhorthwy arnynt - o wneud hynny gall y ganolfan eu cynorthwyo i ddysgu am eu hunain - eu gwendidau, eu ffaeleddau ac, yn bwysicach oll, eu rhagoriaethau.

Wrth gloi cawsom ein hatgoffa o Ddameg y Samariad Trugarog (Luc 10: 24-37). Mae'r `Stafell Fyw yn enghraifft wych o Gristnogaeth ymarferol ar waith yng Nghymru heddiw. Ein braint, fel unigolion ac eglwysi, yw ymateb i'r cais, nid yn unig am gefnogaeth ariannol ond i gofio, yn ein **gweddïau**, am y Ganolfan a'r gwaith arbennig a wneir yno.

Munud i Feddwl – 9 Tachwedd 2011

A4: 30 o weithiau - atom hydrogen! 47 o weithiau - proton! A4: 90 o weithiau - ymylon y bydysawd a 14 biliwn o flynyddoedd golau i ffwrdd! A4: 137 o weithiau - o'r dimensiwn lleiaf i'r dimensiwn mwyaf! A'r cyfan yn dangos mai camau bach sydd eu hangen i fod yn gymaint mwy, neu yn gymaint llai, nag y credwn sydd yn bosibl. Rhyfeddol! Mewn penbleth origamiaidd? Darllenwch **Munud i Feddwl** y Gweinidog.

Bethania: Fesul Cam trwy Efengyl Mathew - 8 Tachwedd 2011

Breintiau a rhwymedigaethau'r Gymdeithas Gristnogol oedd maes trafod Bethania heno; '***Cyfaill sy'n Pechu'*** (Mathew 18: 15-20) a '***Dameg y Gwas Anfaddeugar***' (Mathew 18: 21-35; llun - Lluniau Mafa o'r Affrig: The Unforgiving Servant). Dyma, efallai, yr enghraifft gyntaf o ddysgeidiaeth bendant gan Iesu ar yr hyn y gellir ei alw yn ddisgyblaeth eglwysig. Anodd, ar y cyntaf, oedd deall, neu o leiaf derbyn, yr athrawiaeth: os bydd cyfaill yn gwneud drwg, yn gyntaf, dylid ei geryddu'n bersonol … os nad yw'n hynny'n ddigonol, rhaid dwyn y sefyllfa gerbron dau neu dri o dystion … os methiant eto, yna dylid dod a'r cyfan o flaen yr holl eglwys … os na wrendy ar lais yr eglwys, dylid ei ddiarddel! Sylweddolwyd mewn trafodaeth mai gwraidd y ddisgyblaeth yw dwyn yr unigolyn i edifeirwch, ac nid ei gollfarnu. Sylweddolwyd hefyd mai dim ond pan fydd ar ei gliniau yn gweddïo tros y sefyllfa y gall yr eglwys arfer ei hawdurdod: "*lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol*" (Mathew 18: 20). Yn ***Nameg y Gwas Anfaddeugar*** cawn ddysgeidiaeth am amodau maddeuant; nid oes yn y ddameg ddim sy'n pwysleisio'r ddyletswydd i faddau! Rhoddodd y brenin esiampl o drugaredd i'w was, ond gwrthododd ei was ei ddilyn … y canlyniad? *"... yn ei ddicter traddododd ei feistr ef i'r poenydwyr hyd nes y talai'r ddyled yn llawn.*" (Mathew 18: 34) **Unig amod derbyn maddeuant Duw yw meddiannu ysbryd maddeugar.**



Tair Dameg, Cynffon Mul ac Arian mewn Tywod – 6 Tachwedd 2011

Sul yn llawn her oedd Sul cyntaf Mis Tachwedd i gynulleidfa Eglwys Annibynnol Minny Street. Wrth ein bod yn ymlwybro o Sul i Sul, fesul cam fel petai, trwy Efengyl Mathew weithiau deuwn ar draws ambell hanesyn a dameg sydd, ar y gorau yn lletchwith, ond mewn gwirionedd hefyd yn bigog ac yn dwysbigo'n calonnau. Sul felly oedd heddiw! Buom yn canolbwyntio ar dair dameg digon anodd eu neges ond ar ddiwedd y dydd bendithiol oedd cael teimlo ein bod, fel aelodau yn

Eglwys Minny Street, wedi ein herio gan Negeseuon y Dydd ac y byddwn, o ymateb yn bositif i'r her, yn gryfach a dyfnach ein ffydd a'n tystiolaeth. Braint oedd cael ein tywys trwy'r tair dameg yn ofalus a thyner gan ein Gweinidog.

Dameg y Gweithwyr yn y Winllan (Mathew 20: 1-16: *Parable of the Vineyard Workers* gan Solomon Koninck (1609-1656)) oedd testun sylw'r **Oedfa Foreol**. Buom yn canolbwyntio ar un cymal, "*bydd llawer o'r rhai blaenaf yn olaf, ac o'r rhai olaf yn flaenaf*" (Mathew 19: 30). Eglurhad yw Dameg y Gweithwyr yn y Winllan o'r egwyddor hwnnw. Yn Nameg y Gweithwyr yn y Winllan talwyd yr un swm - un *denarius* - i'r rheini fu'n gweithio un awr a'r rheini fu'n gweithio trwy'r dydd! Annheg? Rhaid cofio mai un *denarius* a addawyd i bawb! Ni thorrwyd yr un cytundeb! Felly hefyd yn Nheyrnas Nefoedd, meddai Iesu. Caiff y rhai a ddaw at Dduw yn hwyr eu caru a'u parchu llawn cymaint â'r rheini sydd wedi ei ddilyn a bod gydag Ef drwy'r amser. Annheg? Onid, gofynnodd y Gweinidog, ein greddf naturiol yw ein rhoi ein hunain ar flaen y ciw? Oni welwn ein hunain fel pobl y rhes flaen, y gweithwyr cydwybodol? Onid dyna ein problem? Onid, mewn gwirionedd, yng nghefn y ciw ydym? Diolch mai Duw annheg iawn sydd gennym! Duw cariad yw! Nid yw'n rhannu'i gariad *pro rata* yn ôl ein haeddiant tybiedig. Dyna yw'r Newyddion Da! ***Mae Duw yn annheg, ond mae hefyd yn hael! Yr unig reswm y bydd i ni warafun ei haelioni yw oherwydd ein bod wedi, ac yn, anghofio ble yn union y safwn yn y ciw!***

Fe'n harweiniwyd i **Fwrdd y Cymun** mewn homili wedi ei seilio ar llond bocs o dywod; wedi'u cuddio yn y tywod 'roedd darnau o arian. Gellid mynd ati i chwilio am y darnau arian trwy ddefnyddio llaw - gwaith hir, diflas a phoenus. Gellir, ar y llaw arall, defnyddio magned a'i symud ar draws wyneb y tywod a chasglu'r darnau arian mewn amser byr a chael mwynhad o weld y darnau yn casglu ar y fagned. Cyffelybodd hyn i'r modd y deuwn o amgylch Bwrdd Swper yr Arglwydd. Ai gyda chalonnau chwerw, diflas, crintachlyd ac anniolchgar? Os felly, prin bydd ein llwyddiant yn darganfod a sylweddoli gwerth y darnau arian - bendithion Duw. Neu dod a wnawn yn llawn diolchgarwch a rhestri'n ostyngedig yr hyn oll mae Duw yn ei roi ni; o wneud hynny sylweddolwn anferthedd Cariad Duw, maint ein hangen i fod yn wastadol ddiolchgar a chymaint y mae Duw yn dal i'w roi i ni mewn bendithion beunyddiol.

Mared, Manon, Rhodri ac Eleri Browning bu wrthi'r wythnos hon yn cynnig themâu o newyddion y dydd i'n gweddïau. Yn ein gweddïau buom yn cofio am yr hyn ddigwyddodd ym mhwll glo Aberpengwm, Glyn-nedd, Danica May Camacho - Baban 7 biliwn!y tirlithriad ar arfordir y Barri, achos llys y ddamwain a ddigwyddodd ar lannau Llyn Clywedog dros yr Haf, y brotest tu allan i Gadeirlan St Paul, plant sy'n disgwyl eu mabwysiadu, y ddaeargryn yn Nhwrci a diolch bod yr awyren yng ngwlad Pwyl wedi glanio'n ddiogel. Efallai mai newyddion 'mawr' yr wythnos oedd bod poblogaeth y byd wedi cyrraedd 7 biliwn. Fe'n harweiniwyd i weddïo dros arweinwyr y gwledydd sy'n trafod materion cynnal poblogaeth enfawr gan geisio darparu adnoddau cynaliadwy, megis bwyd maethlon, dŵr glan, addysg a rhyddid.

"I ddyddiau'r glanio ar y lloer y'n ganed, Iôr, bob un,
a gwelsom wyrthiau eraill drwy y ddawn a roist i ddyn.

Ond dyro weled gwyrthiau mwy - cael sathru dan ein troed
yr afiechydon creulon, cry' sy'n blino'r byd erioed.

Rho inni'n fuan weled dydd na cheir, drugarog Dduw,
na newyn blin na thlodi chwaith, na neb heb gyfle i fyw.

A dyro weled, drwy dy ras, ryfeddol wawr yr oes
pan fydd gelynion daear oll yn ffrindiau wrth y groes."
(R. Gwilym Hughes 1910-1997 *C.Ff.* 806)

Dameg y Tad a'i Ddau Fab oedd testun y gyntaf o ddwy homili yn yr **Oedfa Hwyrol**. "*Aeth at y cyntaf a dweud, 'Fy mab, dos heddiw a gweithia yn y winllan.' Atebodd yntau, 'Na wnaf'; ond yn ddiweddarach newidiodd ei feddwl a mynd. Yna fe aeth y tad at y mab arall a gofyn yr un modd. Atebodd hwnnw, "Fe af fi, syr'; ond nid aeth.*" (Mathew 21: 28b - 30). Beth ddymunwn ni? Ble ydym am fod? Gyda'r Phariseaid (yr ail fab) neu gyda'r Casglwyr Trethi a'r Puteiniaid (y mab cyntaf). A ydym am fod gyda'r naill neu'r llall? Dibynna dyfodol Eglwys Minny Street, rhybuddiodd y gweinidog, ar ba ddewis a wnawn fel aelodau unigol ohoni. O ddewis sefyll gyda'r Phariseaid, byddwn yn addo popeth - teyrngarwch a ffyddlondeb - ond yn gwneud dim! O ddewis sefyll gyda'r Casglwyr Trethi a'r Puteiniaid byddwn yn anfodlon rhoi ein hunain i waith yr eglwys, byddwn yn ymwrthod a galwadau'r eglwys ond yna, rhywbryd, yn sylweddoli mai ni yw yr eglwys, ac os na wnawn ni weithio drosti … pwy wnaiff? Haws sefyll gyda'r Phariseaid … cwmni parchus! ***Gwell i'r Eglwys yw sefyll ymhlith y Casglwyr Trethi a'r Puteiniaid … heb fod yr un mor barchus efallai, ond dyma'r bobl sydd, yn y pendraw, yn cyflawni pethau!***

Dameg y Wledd Briodas (Mathew 22: 1-14; llun - *The Wedding Feast* gan Tintoretto (Jacopo Comin) 1510-1594) oedd yn denu ein sylw yn yr Ail Homili. Stori astrus, dameg ddyrys! Echel y ddameg yw'r wisg briodas … rhaid gwisgo'n addas i'r wledd! Oes rhaid i ni wisgo'n addas i gael mynediad i Deyrnas Duw? Ydy'n hiachawdwriaeth ni yn dibynnu ar beth a wisgwn? Beth am: "*A pham yr ydych yn pryderu am ddillad? Ystyriwch lili'r maes, pa fodd y maent yn tyfu; nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu ... Solomon yn ei holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain*" (Mathew 6: 28-29) Pa bennod, felly, sydd bwysicaf? Mathew 6 neu Mathew 22? Fe'n rhybuddiwyd gan ein Gweinidog; mewn llawer eglwys gwelir aelodau o'r gynulleidfa na ellid byth amgyffred o'u buchedd fod bywyd yng Nghrist yn beth da! Anodd dirnad, o wrando arnynt, fod Duw yng Nghrist yn gwneud gwahaniaeth beunyddiol i'w bywydau. Nid oes gwisg addas ganddynt i'r wledd briodas! Ai traddodiad ac arfer sy'n rheoli eu hymarweddiad … neu'r ffaith eu bod yn anfodlon a phwy arall a wahoddwyd i'r wledd? Dewisant eistedd allan ar yr ymylon yn dathlu gan edrych yn grintachlyd, tra bod eraill yn mwynhau. Gwrthod gwisgo'r dillad mae Iesu yn ei roddi ar ein cyfer. ***Neges y ddameg yw y bydd Iesu yn anfon ei wasanaethyddion … a bore trannoeth, deallwn yn iawn pam bu rhaid ein taflu allan!***

Daeth Sgwrs y Plant yn yr Oedfa Foreol a llawer o atgofion plentyndod yn ôl i bawb yn y gynulleidfa - pob un ohonom yn cofio 'rhoi cynffon ar y mul'. Dangosodd y Gweinidog sut oedd

gwneud hyn ... cymryd y Rhys mewn penbleth!gynffon, ei rhoi yn ei lle, a'r mul yn gyflawn. Nid oedd am ddim rhagor - dim mwgwd nag unrhyw anhawster arall; losin i bawb a fyddai'n llwyddo! Bron na fedrem deimlo cynnwrf y plant yn y Set Fawr. Ond methu bu'r hanes, pawb yn gwybod ble i roddi'r gynffon ond y gynffon yn gwrthod glynu! Bu rhaid galw ar rhai o'n myfyrwyr i ddod i'r

adwy ond methu fu hanes rheini hefyd ... hyd yn oed ein chwaraewr rygbi galluog. Er ei oriau o ymarfer gyda'r *Gleision*, y fwydlen gynnil â ddilyn i sicrhau perffeithrwydd ffitrwydd a chorfforol, ac er ei holl wybodaeth strategol o fyd y chwaraeon, methu fu hyd yn oed hanes Rhys Patchell! Sut felly llwyddodd y Gweinidog? Yr ateb? 'Roedd Gweinidog Eglwys Annibynnol Minny Street wedi chwarae tric ar ei bobl! 'Roedd wedi newid y gynffon - ac yn lle'r gynffon a'r darn magned atynnol a ddefnyddiodd, cynffon a magned gwrthyrrol a gafodd y plantos, y plant, y myfyrwyr a'n pencampwr rygbi! Hen dric gwael, na welodd neb mohono! A'r neges? Oddi mewn i Eglwys Iesu Grist, er pob ymdrech i osgoi, mae yna wahanol fathau o fagnedau - rhai yn tynnu at ei gilydd, eraill yn gwthio i ffwrdd. Ein gwaith ni yw ceisio sicrhau ein bod ni yn gweithio fel magned atynnol yn hybu cydweithio, cydaddoli a chydfyw fel rhan o Gymuned Gristnogol lle mae cariad sy'n teyrnasu.

Clywed am hanes Paul a Silas yn y carchar (llun: Cerflun Efydd: Paul and Silas in Jail Singing Praises gan Nic Grobler) bu'r Plantos yn yr **Ysgol Sul**. Cawsant gyfle i drafod y cyffion fu'n dal y ddau, a sôn am y cyffion sydd yn ein dal ninnau yn 2011. Cafwyd mwynhad a llawenydd mawr wrth glywed am Paul a Silas yn canu mawl i Dduw yn y carchar a sut y bu i ddrysau'r carchar agor ac i rwymau'r holl garcharorion ddatod. Sôn am barti! Hanes Paul a'u negeseuon i'r Corinthiaid a'r Philipiaid bu'r Plant yn ei wneud. Bu pawb wrthi yn edrych ar fap o'r byd i weld yn union i ble y bu i Paul deithio; mewn gem o chwilair aethpwyd ati wedyn i glywed hanesion am ffrindiau Paul.

Heno, ar ôl yr Oedfa Hwyrol ymgasglodd **Wedi 7** yng nghartref y Gweinidog i drafod ail bennill emyn Moelwyn:

"Nid ceisio'r wyf anrhydedd byd,
nid gofyn wnaf am gyfoeth drud;
O! Llwydda f'enaid, trugarha,
a dod i mi y pethau da."

(Moelwyn 1866-1944; *C.Ff.* 691)

Treuliwyd tipyn o amser yn trafod mor anodd yw canu'r pennill hwn yn onest. Tebyg iddo fod yn anodd i Moelwyn ar y pryd; peth naturiol i'r ifanc effro yw uchelgais. Sylweddolodd, er hynny, mai ei angen pennaf oedd llwyddiant enaid. Cwestiwn y noson oedd onid ein hangen mawr ninnau yn 2011 yw sylweddoli bod cyflwr ysbrydol llawn mor bwysig a llwyddiant materol? Rhaid cofio nad yw ennill 'pethau materol' ynddo'i hun yn ddrwg. Maent yn rhan o'r daioni y mae Duw yn ei roi i ni, ond mae iddynt eu priod le mewn bywyd. Cafwyd cytundeb llwyr mai ofer pob cyfoeth os tlawd yr enaid; truenus pob anrhydedd heb fendith Duw.

Siffra a Pua, dwy fydwraig yr Hebreaid, sy'n denu ein sylw ym **Myfyrdod y Mis** y mis hwn. Canolbwyntiwn ar eu dewrder rhyfeddol yn gwrthod baeddu eu dwylo â gwaed y diniwed (Exodus: 1: 15-22). Trwy fod yn eofn ac wynebgaled maent yn rhoi cyfle i fywyd ddianc o grafangau marwolaeth! Dau ddarn o waith Caspar David Friedrich (1774 - 1880), *The Cross in the Mountains* (1808; llun - The Cross in the Mountain gan Caspar David Friedrich) a *Morning in the Riesengebirge* (1810) yw testun sylw **... ac Ati**. Ynddynt gwelwn y Creawdwr yn y mynyddoedd

a'r Gwaredwr yn y groes yn clymu'n un. Bu'r Gweinidog hefyd yn cyfrannu i wefan Cristnogaeth 21; ceir ganddo erthygl sy'n codi llawer iawn o gwestiynau o dan y pennawd '***Adnabod yw Cymodi***' (o *Telstar* gan Dic Jones yn *Caneuon Cynhaeaf* 1969 Gwasg John Penry 1969). Ynddi mae'n ein cystwyo am chwarae gemau diwinyddol a cheisio ennill pwyntiau, yn hytrach na defnyddio ein diwinydda i ddyfnhau ein deall o Dduw. Yn ystod y dydd cynhaliwyd cyfarfodydd o **Gylchoedd Plant a Dinasyddiaeth Gristnogol** Eglwys Minny Street.

Munud i Feddwl – 2 Tachwedd 2011

"*I work all night, I work all day, to pay the bills I have to pay ... Ain't it sad ... And still there never seems to be a single penny left for me ... That's too bad ... In my dreams I have a plan ...*" (geiriau gan: Benny Goran Br Andersson (*gan.* 1946) a Bjoern K. Ulvaeus (*gan.* 1945)) Na, nid yw'r Gweinidog am ail greu'r Grŵp '*Abba*' yn Eglwys Minny Street! Adroddiad diweddaraf Banc Lloegr sydd wedi dal ei sylw'r wythnos hon ac yn ei **Funud i Feddwl** myfyria ar y maglau sy'n gwrthod rhyddhau ein traed.

Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol: Y Gymdeithas – 1 Tachwedd 2011

Cawsom noson hwyliog a hyfryd yngh nghwmni Mrs Mair Robbins heno; person sy'n amlwg iawn ym myd cerdd ac addysg yng Nghaerdydd. Aeth Mair a ni allan i'r wlad i fyd yr adar trwy gyfrwng amrywiaeth ddiddorol o ddarnau yn ymestyn o'r clasurol i fyd caneuon ysgafn, gwerin a jazz. Paentiwyd darlun lliwgar ac efelychiad hynod gywrain o gân gwahanol rywogaethau o adar - yr eos, yr ehedydd, y gwcw, y golomen, yr alarch a'r estrys. Cawsom hefyd wrando ar gân hyfryd o swynol o eiddo Paul Mcartney (*gan.* 1942) a John Lennon (1940-1980) - '*Blackbird*' - yn cael ei chanu gan grŵp anhygoel o gelfydd, '*Swingle Singers*'. Cataleiddiwyd y ddau awdur i ysgrifennu'r geiriau yn sgil tensiynau hil yn yr U.D.A. yn 1968; ysbrydolwyd y gerddoriaeth gan un o weithiau cyfarwydd J S Bach (1685 - 1750), *Bourrée yn E leiaf.* Bu heno yn noson o fwynhad pur!